**Bitesize**

# Cynaliadwyedd dŵr

| | |
|---|---|
| CAL | Haia. Cal dw i, a dyma Mags, fy chwaer. |
| MAGS | Mae pob rhifyn yn hidlo'r stwff does dim angen i chi wybod am gemeg... |
| CAL | …ac yn eich socian efo'r stwff defnyddiol. |
| MAGS | Cynaliadwyedd dŵr ydy pwnc y rhifyn yma. |
| CAL | Ie, bydd dŵr yn cael ei bwmpio i'n tai ni, yn syth i'r tap. Ond cafodd y dŵr yma daith hir cyn cyrraedd fy ngwydr i. Beth am fynd yn ôl ryw awr neu ddwy?<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r dŵr yn ein tai ni'n dod o'r glawiad i lynnoedd a chronfeydd dŵr. Tyniad ydy enw'r broses.<br><br>Ond mae angen trin a glanhau'r dŵr achos... ych, beth yn y byd ydy hwnna? O, afiach…<br><br>Mae angen puro'r dŵr 'ma. Allan fan 'na, mae'n digwydd ar raddfa ddiwydiannol. |
| MAGS | Allan lle? |
| CAL | Allan fan 'na, yn y gweithfeydd trin dŵr.<br><br>Cam un – gwaddodiad. Mae hyn yn digwydd mewn tanciau enfawr. Mae gronynnau solet mawr yn setlo – ydych chi'n gweld? Mae disgyrchiant yn eu cadw ar waelod y tanc mewn math o 'slwdj'.<br><br>Mae hyn yn gallu cymryd amser, felly disgyrchiant amdani.<br><br>Reit, mae'r dŵr yn edrych yn gliriach. Cam dau – hidliad. Mae hyn yn tynnu gronynnau anhydawdd llai. Drwy arllwys dŵr drwy haenau o dywod a graean, mae'r gronynnau lleiaf yn aros ar ôl.<br><br>Yn olaf, cam tri – clorineiddiad. Mae clorin yn diheintio'r dŵr, a lladd unrhyw ficrobau – ta-ta bacteria, hwyl fawr afiechydon iych.<br><br>Wedyn mae'n gallu cael ei ddosbarthu a'i bwmpio i'ch cartref, yn saff i'w yfed. |
| MAGS | ...ac i gael cawod hefyd? |


© Hawlfraint BBC

| | |
|---|---|
| CAL | Ydy, ond rydyn ni'n cymryd yn ganiataol bod dŵr yn y tap drwy'r amser. Mae'r boblogaeth yn codi, a busnesau'n defnyddio mwy o ddŵr. Ledled y byd, gallai'r galw fynd yn uwch na'r cyflenwad. |
| MAGS | Efallai bydd prinder dŵr yma yng Nghymru hyd yn oed. A beth am newid hinsawdd? |
| CAL | Mae capiau iâ'n toddi'n gyflymach, ac yn cynyddu lefelau dŵr y môr. Felly, mae angen trin y dŵr yn fwy, fel ei fod yn ffit i'w yfed a'i ddefnyddio. Ac efo'r tymheredd byd-eang yn codi, a sôn am fwy o sychder, bydd mwy o alw am ddŵr, ond llai ar gael. |
| MAGS | Oherwydd hyn, ar ben y difrod i'r amgylchedd, bydd y gost yn codi hefyd. Felly, arbedwch ddŵr lle'n bosibl, gan dy gynnwys di, Cal. |
| CAL | Mags. |
| MAGS | Roeddwn i wastad yn meddwl mai pwnc reit sych oedd cynaliadwyedd dŵr. |
| CAL | Ond rydyn ni wedi arllwys dŵr oer ar hynny, do? |


© Hawlfraint BBC